**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ar ddydd Mercher 7fed Rhagfyr 2022 ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Cadeirydd – Y Cynghorydd D. Simmons

Y Cynghorwyr Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. J. Evans, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Miss S. Roberts, A.J. Rutherford, A. Walker, a Miss C. Williams.

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd Mrs. E.M. Chard (Arsylwi)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 34. <u>CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU</u>

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, a Ms. V. Roberts.

## 35. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO (ATODLEN 11)</u>

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a ddangosir isod a ***<u>PHENDERFYNU</u>*** fel y nodir yma.

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 35.1. | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 16 Ridgeway Avenue, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Brynhedydd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: B. Mellor<br>S. Feeney<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2022/0974<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Adeiladu estyniad un llawr to gwastad yng nghefn yr eiddo<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** Mr. a Mrs. Danny a Kelly Jones o'r cyfeiriad uchod<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 35.2 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Tir gyferbyn â Shell Vale 193 Vale Road, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Derwen<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2022/0992<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Gosod polyn telegyfathrebu 20m o uchder ac offer cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** CK Hutchison Networks (UK) Ltd, 450 Longwater Avenue, Reading<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>:***<br><br>**[Wrth ystyried y cais hwn, roedd yr Aelodau yn ystyried effaith mast tebyg a osodwyd yn ddiweddar gan yr un ymgeisydd dan rhif cais cynllunio 45/2021/0535 a'r adborth negyddol sy'n cael ei dderbyn gan drigolion ynglŷn â'i effaith weledol ar yr ardal.]**<br><br>Gqwethwynebu am y rhesymau canlynol:<br><br>1. Mae safle'r cais ar hyn o bryd wedi ei ddynodi fel man gwyrdd / man cyhoeddus yng *Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych – Asesiad ac Archwiliad Mannau Agored"*<br><br>Adnabu'r Archwiliad uchod ddiffyg mewn darpariaeth o le agored yn Ward De'r Rhyl.<br><br>Mae'r Cyngor Tref felly yn ystyried bod Polisi BSC 11 y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol:<br><br>*"Polisi BSC 11 – Amddiffynnir mannau adloniant, mannau agored cyhoeddus, rhandiroedd a thir glas mwynderau a lle'n bosibl, ei wella. Bydd datblygiad a fyddai'n arwain at golli tir cyhoeddus neu breifat gyda gwerth adloniant a/neu fwynderau ond yn cael ei ganiatáu lle darperir lle awyr agored amgen o werth cyfatebol neu well i'r gymuned.*<br><br>• *Bydd safon leiaf y Cyngor o 2.4 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth yn cael ei ddefnyddio ar bob safle datblygu.*<br>• *Dylid darparu man agored ar y safle bob amser. Bydd symiau gohiriedig ond yn dderbyniol lle dangosir na fyddai'r datblygiad yn ymarferol yn ariannol os bydd y gofyniad llawn am le agored yn cael ei ddarparu ar y safle neu lle byddai'n anymarferol darparu'r gofyniad llawn am le agored ar y safle.*<br>• *Lle nad oes diffyg a adnabuwyd am le agored yn yr ardal leol bydd y Cyngor, lle'n briodol, yn disgwyl i ddatblygwyr wneud cyfraniad ariannol trwy gyfrwng swm gohiriedig i liniaru effaith cynnydd yn y defnydd o'r mannau agored a'r offer presennol yn yr ardal."* |

| | |
|---|---|
| | Cred y Cyngor Tref bod y cais yn mynd yn groes i'r polisi uchod gan y byddai'n arwain at golli peth o'r lle agored ar y safle hwn.<br><br>2. Mwynderau Gweledol<br><br>Cred y Cyngor bod dyluniad, maint a golwg y polyn yn groes i ofynion Polisi RD 1(i) a (iv) gan y bydd yn cael effaith negyddol ar y safle a'r golygfeydd o gwmpas ar hyd y brif fynedfa i dref y Rhyl oherwydd ei olwg gormesol<br><br>*"Polisi RD 1 - Caiff cynigion datblygu eu cefnogi o fewn ffiniau datblygu cyn belled â bod y yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:*<br><br>*i) Parchu'r safle a'r ardal o gwmpas o ran lleoliad, cynllun, maint, ffurf, cymeriad, dyluniad, deunyddiau, agwedd, micro-hinsawdd a dwysedd defnydd tir/adeiladau a'r gofod rhwng ac o amgylch adeiladau; a*<br><br>*iv) Nad yw'n effeithio'n annerbyniol olygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn i, allan o, neu ar draws unrhyw anheddiad neu ardal o gefn gwlad agored;"*<br><br>Cred y Cyngor Tref y bydd y mast, oherwydd ei faint a'i olwg, yn cael effaith negyddol ar gymeriad a mwynderau'r ardal leol.<br><br>I grynhoi, mae'r Cyngor Tref yn ystyried y byddai'r polyn, oherwydd ei uchder, maint a lleoliad, o'i ystyried yng nghyd-destun ffyrdd preswyl cyffiniol, maint ac amlygrwydd cymharol seilwaith rpesennol, y ffaith ei fod yn agos at dai 2 lawr a'r berthynas gyda'r coed ar y safle, yn ymddangos yn rhy fawr, yn ormesol ac anghyson yn y strydlun ac yn tarfu ar y man agored lle bwriedir ei osod.<br><br>Mae'r Cyngor Tref yn ystyried, os rhoddir caniatâd i'r mast, yna dylid talu swm neilltuedig fel iawndal i'r trigolion lleol a effeithir gan y cais. |
| 35.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 13- 15 Stryd Fawr, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2022/0838<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Newid defnydd o siop (Dosbarth Defnydd A1) yn fwyty bwyd poeth / tecawê (Dsobarth Defnydd A3), gosod tu blaen siop newydd, simnai echdynnu, allanfa dân, unedau cyddwyso aer a gwaith cysylltiedig.<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** Sparta Foods Limited, 1st Floor KFC Earls Court, Arlington Way, Battlefield Road, Amwythig.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 35.4 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Ystafelloedd Cymunedol a 35-59 Maes Emlyn, y Rhyl |

| | |
|---|---|
| | **WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2022/1013<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd o 24 fflat pobl hŷn, cyn lety warden ac ystafell gymunedol i ddarparu 24 uned o lety sefydlog i ddinasyddion sydd wedi eu cyflwyno eu hunain fel rhai digartref i'r Cyngor Sir a gwasanaethau cymorth cysylltiedig am gyfnod dros dro o 5 mlynedd.<br><br>**YMGEISWYR:** Cyngor Sir Ddinbych<br><br>***PENDERFYNIAD**: Gohirio tan y cyfarfod nesaf* |

## 36. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: … …………………..……